## Pegi Lloyd Williams yn olrhain mwy o hanes

# Yr Hen Glochyddion

GWELWYD meibion ac wyrion yr hen glochyddion yn dod yn wŷr amlwg ac enwog – taid John Elias o Fôn oedd John Cadwaladr, clochydd Abererch, a chlochydd oedd gorhendaid Saunders Lewis. Clochydd yn Eglwys Llanidan oedd Thomas Gibson, taid yr arlunydd byd enwog John Gibson R.A. a anwyd yn Nhŷ'r Gât, Ystad y Benarth, Cyffin, ac a ddaeth yn gyfaill i'r Frenhines Victoria a'i mab Edward. Mae wedi ei gladdu ym mynwent y Protestaniaid yn Rhufain lle gorwedd Shelley a Keats. Y teulu Gibson wedi dod fel ciperiaid i Fôn, mae'n debyg. Cawn yn llinach Sion Ifan, fy hen-hen daid, y diweddar Moses Jones, Prif Gyfarwyddwr Addysg sir Fflint, ac a wnaeth gymaint dros gael ysgolion Cymraeg; y Doctor Dafydd Alun, Geraint Vaughan Jones enillydd Medal Goffa Daniel Owen deirgwaith, a Tecwyn Vaughan Jones yr awdurdod ar Lên Gwerin Plant Cymru.

Gwelais lythyr difyr yn Ll.G.59 yn sôn am hynodion hen fynwent ganoloesol Eglwys Ioan Fedyddiwr, Aberdar, ac yn dweud 'a swyddog nodedig iawn oedd yn "Percartwr", ac roedd yn glochydd ac yn dorrwr beddau' ac yna yn mynd ymlaen i esbonio fel y byddai'r ffermwyr yn dod ag adar ac anifeiliaid ysglyfaethus ato ar ôl eu lladd, ac yn cael tâl sylweddol amdanynt. Byddai yntau, wedyn, yn hongian y crwyn ar ganghennau'r ywen, ond dywedodd rhyw hen ŵr tua dechrau'r ganrif ddiwethaf ei fod o yn cofio gweld yr ysgerbydau yn hongian. Roedd y sawl a ysgrifennodd y llythyr yn gofyn beth oedd *'PERCATWR'* a rwyf innau am fentro cynnig y ferf 'percu' – *to trim, to smarten*, a hwyrach mai tacsidermydd oedd yma yn derbyn arian da am ei waith. Sut arall roedd o yn medru talu arian da am y creaduriaid – cymaint â phunt am gadno.


Dal tyrchod daear yn yr haf a chwarae'r delyn yn y tafarndai yn y gaeaf fyddai hoff bleserau Siôn Ffidil Dwrch, sef John Roberts o Bant yr Ellyll, Dyffryn Conwy. Melinydd oedd Siôn, yn ogystal â bod yn glochydd Eglwys Sant Pedr, Llanbedr-y-Cennin. Ceir yr hanes yn llawn yn Rhif 71 *Y Casglwr*, a diolch i Stan Wicklen am fynd ar ôl trywydd 'Beibl y Melinydd'. Roedd copi o'r *Bibl Cyssegr Lân* (1620) neu Beibl yr Esgob Richard Parry fel yr adnabyddir ef, ar y pulpud yn Eglwys Sant Pedr. Hwn oedd yr ailgyfieithiad ar ôl Beibl William Morgan (1588). Erbyn tua diwedd y ddeunawfed ganrif roedd cryn dipyn o ymosod ar Feiblau Cymraeg yn yr eglwysi, a llosgwyd llawer. Roedd gorchymyn wedi dod oddi wrth awdurdodau Eglwysig yn deddfu mai Beiblau Saesneg yn unig oedd i'w gosod ar bulpudau eglwysi Cymru, ac i'r gwasanaethau gael eu cynnal yn fwyaf yn yr iaith fain.

Fel y gwyddys, byddai'r Beibl wedi ei glymu â chadwyn i asgell y pulpud, ac y mae lle i feddwl fod Siôn Ffidil Dwrch wedi cadw a chuddio yr hen Feibl Cymraeg, yn y felin hwyrach, yn hytrach na'i gyflwyno i'r awdurdodau i gael ei losgi. Gwerthodd y Beibl i Peleg Ishmael Jones yn 1855. Yn 1964 derbyniodd y Parch Glyn Jones, rheithor Eglwys Sant Pedr, alwad ffôn yn cynnig yr hen Feibl yn ôl i'w briod le, ac yno y mae, wrth gwrs, diolch i Siôn Ffidil Dwrch y clochydd, a disgynyddion Peleg Ishmael Jones.

Yn ei erthygl ar Gwilym Hiraethog (Y Parchedig William Rees D.D. 1802–1883) mae y Parch D. Ben Rees yn sôn am glochydd Llansannan. Roedd Gwilym Hiraethog yn was fferm yn y cylch ac yn mynychu gwersi ysgol yn y Red Lion, o dan law Ishmael Jones, Rhosllannerchrugog, ac yn y dafarn y bu iddo drafodi ei bregeth gyntaf. Roedd y clochydd yn bresennol. Aeth yn dywyll ar y cyw pregethwr ymhen rhyw ddeng munud, ac Ishmael yn ei annog i gario ymlaen. 'Dal ati, dal ati, rwyt ti wedi dechrau'n dda iawn.' Rhoddodd hyn hwb i'r truan bach ac fe ailgydiodd ynddi, ond i'r niwl yr aeth o wedyn, ac Ishmael yn gweiddi 'Dos ymlaen, dal ati, rwyt ti'n pregethu'n dda iawn. Wyt wir.' Tystiodd y clochydd fod honno'n gystal pregeth ag unrhyw un a glywodd ganddo byth wedyn. Gwawd? Ia, mae'n siŵr. Fe ddaeth Gwilym Hiraethog yn un o bregethwyr mawr Cymru, ac ef oedd golygydd cyntaf *Amserau* (1843) 'papur Gwilym Hiraethog'. Daeth yn wleidydd, yn ddarlithydd a chofiwn amdano pan yn canu'r emyn 'Dyma gariad fel y moroedd'.

Byddai'r clochydd yn cydweithio'n agos â'r offeiriad, wrth gwrs, wedi'r cyfan efo oedd y prif swyddog a chanddo ef oedd y gair olaf. Ond cawn hanes ambell glochydd yn mynnu mynd ei ffordd ei hun, heb ofni gwg na llid y person, ac un felly oedd John Parry, clochydd eglwys Abergwyngregin, ger Bangor. Roedd angen torri bedd i blentyn bach, a dangosodd yr offeiriad y fan a'r lle. Aeth John Parry ymlaen i agor y bedd, ond yn fuan gwelodd ei fod yn lle gwlyb iawn ac aeth yn ei flaen i agor bedd arall. Daeth yr offeiriad heibio a mynnu esboniad, ac eglurodd y clochydd y byddai'n amhosibl claddu neb yn y bedd cyntaf gan fod yna ormod o ddŵr yn codi. 'Gormod o ddŵr – chlywaist ti erioed am gladdu yn y môr?' 'Wel do,' medda John Parry, 'ond chlywais i rioed am neb yn agor bedd yn y môr chwaith.'

Daeth Esgob Campbell, Bangor heibio eglwys Llanfair, ger Harlech. Byddai'n arferiad gan yr Esgob i ymweld ag eglwysi ei dalgylch yn *'in cognito'* ac wrth i'r clochydd ei dywys o gwmpas eglwys Llanfair tynnodd ei sylw at y ffaith nad oedd yno ddim math o gyfleusterau twymo yn yr adeilad. 'O oes mae 'ma w'ch chi,' meddai'r clochydd, 'mae 'ma un yn y pulpud.' 'Wel, dyna le rhyfedd i roi peiriant twymo,' medda'r esgob. 'Nage, nage,' medda'r clochydd, 'Mr Davies, y person, ydi'n stôf ni, mae o'n cadw pawb yn gynnes wrth wrando ar ei bregeth.'




*Wyneb-ddalen Beibl 1620 (Richard Parry).*

Daeth William Henry Jones yn glochydd i Eglwys Sant Mihangel, Ffestiniog, yn nau ddegau'r ganrif ddiwetha, hyd ei farw disymwth yn 1937. Mae carreg ei fedd i'w gweld ar yr ochr ddwyreiniol, ger drws yr eglwys. Dyma glochydd y mae rhai yn dal i'w gofio. Roedd ei ddyletswyddau yn cynnwys edrych ar ôl yr eglwys a'r offeiriad, torri bedda' a chadw'r fynwent yn daclus – popeth yn union fel pob clochydd arall o'i flaen. Byddai dynion yr ardal yn cychwyn am eu gwaith i'r chwareli ym Mlaenau Ffestiniog yn y bore bach, ac yn aml yn ei weld ar ei liniau yn torri'r gwair efo gwellau, cyn mynd at ei waith ei hun ar ystâd y tirfeddiannwr. Roedd yn gweithio i'r Arglwydd Newborough, a derbyniodd alwad unwaith i weithio ar y Sul, ond gwrthododd yn bendant gan ddweud, 'I serve only the Lord of lords on Sunday.' Roedd wedi bod yn yr eglwys ar ei nos Sadwrn olaf yn stocio'r tân at dwymo'r adeilad at y Sul, ond erbyn i'r selogion gyrraedd i'r gwasanaeth boreol roedd William Henry wedi marw. Yr eglwys yn lân a chynnes ond yr hen glochydd yn oer yn ei hun ola'.

Yn y CYMRO ar 5 Gorffennaf 1941, gwelwn lun, ac ychydig o hanes Owen Jones, 82oed, clochydd Eglwys St Ffraid, Glan Conwy. Ar yr adeg hynny ef oedd clochydd hynaf yr hen sir Gaernarfon, ac wedi dal y swydd am 42 blynedd. 'Yr unig beth a'm poena y dyddiau yma, heblaw'r rhyfel wrth gwrs, yw'r sciatica,' medda fo wrth y gohebwyr. Rhoddodd stori ddifyr am y gloch, 'Un bore Sul, torrodd bach y gloch a syrthiodd y tafod y tu allan i'r eglwys, eiliad wedi i ddynes a'i phlentyn basio.' Pan yn atgyweirio'r gloch, archwyd ef gan Canon Griffith Williams i roddi lledr oddeutu'r tafod i rwystro'r gloch wneud cymaint o gynnwrf, am fod y trigolion yn cwyno. Y Sul wedyn, chafwyd dim sŵn o gwbl ac fe aeth y mab i fyny a thynnu'r lledr. 'Y mae'r gloch yn rhydd i daro byth er hynny ac ni chlywais yr un gŵyn.' Dywedodd nad oedd yn bwriadu rhoi i fyny ei swydd 'tra bod gwynt ynof'.

Rwy'n tybio bod fy nodiadau yn gywir trwy ddweud fod Hugh Roberts wedi bod yn glochydd yn Eglwys Sant Cwynfain, Rhoscolyn, fel y bu rhai o'i deulu o'i flaen. Bu'n gweithio ar ffermydd yn ei dro, ac yna yn bostman. Mae yna beth rhyfedd ym mynwent eglwys Rhoscolyn. Mae yna ddwy garreg, yn union yr un fath, ar fedd un wraig yno. Bu Edgar Jones yn ceisio gwybod pam yn *Y Rhwyf*, ond heb lawer o lwyddiant. Byddai'n falch o ddod at y gwir, mae'n siŵr.



*Eglwys Sant Ioan Aberdar yn 1811.*